

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

MyDentist, Cilâ, Abertawe

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 04 Mawrth 2026

Dyddiad cyhoeddi: 04 Mehefin 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom .....	5
2. Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym .....	9
• Ansawdd Profiad y Claf .....	9
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	13
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	17
4. Y camau nesaf .....	20
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	22
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith.....	24
Atodiad C - Cynllun gwella .....	26

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o MyDentist, Cilâ, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 04 Mawrth 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o naw holiadur gan gleifion a chwblhawyd pedwar gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nododd y cleifion brofiad gofal cadarnhaol iawn. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y gwasanaeth yn 'dda iawn', gan dynnu sylw at staff cyfeillgar a phroffesiynol a oedd yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael gofal da, bod gwybodaeth yn cael eu rhannu â nhw, a'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau.

Roedd deunyddiau hybu iechyd addas a gwybodaeth addas i gleifion ar gael, ac roedd cleifion yn cael esboniadau clir am opsiynau triniaeth, risgiau a chostau. Gallai cleifion gael apwyntiadau mewn modd amserol.

Roedd pob rhan o'r practis yn lân, yn groesawgar ac yn daclus. Roedd rhai addasiadau rhesymol ar waith er mwyn helpu i gynnig mynediad teg at wasanaethau; fodd bynnag, roedd cynllun yr adeilad yn cyfyngu ar ei hygyrchedd ffisegol, a gwnaethom nodi nad oedd breichiau ar y cadeiriau yn yr ardal aros i'r rheini y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

Roedd dewisiadau iaith wedi'u cofnodi ar gyfer pob claf, ond gwnaethom nodi bod angen gwella'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Aeth y staff i'r afael â hyn yn ystod yr arolygiad drwy arddangos gwybodaeth addas a sicrhau bod aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo bathodyn i ddangos hynny.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella'r trefniadau o ran hygyrchedd er mwyn helpu i gynnig mynediad teg.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr amgylchedd yn groesawgar ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda
- Roedd y staff yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt
- Roedd yr adborth gan gleifion yn gyson gadarnhaol
- Roedd gwybodaeth glir yn cael ei darparu i hysbysu cleifion am eu gofal
- Roedd oriau agor estynedig ar gael er mwyn gallu cael apwyntiadau amserol.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Dangosodd y practis drefniadau cadarn ar gyfer darparu gofal diogel ac effeithiol, wedi'u hategu gan bolisiau corfforaethol cadarn, rhaglen gynhwysfawr o asesiadau risg clinigol ac amgylcheddol cyfredol, a phrosesau rheoli digwyddiadau

dibynadwy. Ar y cyfan, roedd yr adeilad wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, a dim ond rhai mân faterion addurniadol a nodwyd yn ystod yr arolygiad. Roedd y trefniadau ar gyfer diogelwch tân wedi'u sefydlu'n dda. Roedd arwyddion gweladwy, roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal bob chwe mis, ac roedd y diffoddwyr tân yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.

Fodd bynnag, nodwyd nifer o faterion yn ymwneud â diogelwch amgylcheddol, gan gynnwys bin gwastraff papur wedi'i storio'n amhriodol, switshis ynysu pelydrau-X heb eu labelu neu na ellid eu cyrraedd, diffoddwyr tân wedi'u labelu'n anghywir a hen arwyddion ar gyfer y diffibriliwr; cafodd yr holl faterion hyn eu datrys yn briodol yn ystod yr arolygiad.

Gwelsom systemau cadarn ar gyfer rheoli meddyginiaethau, ac roedd meddyginiaethau brys, cyfarpar a phecynnau adfywio ar gael, yn gyfredol ac wedi'u trefnu'n dda.

Roedd y safonau rheoli heintiau yn uchel ac wedi'u hategu gan arweinydd dynodedig, prosesau dihalogi effeithiol a systemau rheoli gwastraff priodol.

Roedd y trefniadau diogelu yn un o gryfderau penodol y lleoliad, gydag arweinydd diogelu dynodedig, lefelau uchel o hyfforddiant staff a llwybrau atgyfeirio clir.

Ar y cyfan, roedd cofnodion cleifion o ansawdd da; fodd bynnag, gwelsom arferion cofnodi anghyson rhwng y clinigwyr, a oedd wedi arwain at achosion o wybodaeth goll neu anghyflawn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu a gwella'r broses gyffredinol ar gyfer cynnal a chadw'r safle
- Cyflwyno templed cadw cofnodion safonol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth glinigol yn cael ei chofnodi'n gyson.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Systemau cofnodi a rheoli digwyddiadau effeithiol
- Prosesau trefnu apwyntiadau effeithlon a phrosesau atgyfeirio wedi'u rheoli'n dda.
- Hyfforddiant cyfredol ar Adfywio Cardiopwlmonaidd ar gyfer aelodau perthnasol o'r staff, a thri swyddog cymorth cyntaf hyfforddedig
- Trefniadau diogelu cadarn.

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod strwythur rheoli clir ar waith, wedi'i ategu gan oruchwyliaeth gorfforaethol hygrych, cyfarfodydd tîm rheolaidd a systemau effeithiol ar gyfer uwchgyfeirio digwyddiadau a dysgu. Dywedodd y staff hefyd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn hyderus eu bod yn darparu gofal diogel.

Roedd cofnodion y staff yn cael eu cadw'n dda, a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ac wedi cael arfarniadau blynyddol yn unol â'r gofynion rheoliadol. Roedd y polisiâu a'r gweithdrefnau yn gynhwysfawr, yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Roedd y systemau llywodraethu wedi'u sefydlu'n dda, gyda phrosesau sicrhau ansawdd cadarn a chydymffurfiaeth dda ag archwiliadau, a oedd yn dangos ymrwymiad clir i wella'n barhaus.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rheoli'r practis yn effeithiol, gyda chymorth gan y grŵp corfforaethol hygrych
- Arferion recriwtio a chyflogi cadarn
- Tîm o staff cefnogol ac ymroddedig a oedd yn cydweithio'n dda â'i gilydd
- Cyfarfodydd tîm misol ag agendâu a chofnodion
- Defnydd da o gofnodion digidol a systemau dysgu
- Gweithgarwch gwella ansawdd parhaus, gyda chymorth gweithredu cadarn yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan gleifion

Nododd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC brofiad gofal cadarnhaol iawn. Dywedodd pob un ohonynt fod y gwasanaeth yn 'dda iawn', gan nodi bod y staff yn gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn gefnogol. Roedd y cleifion yn fodlon â'r gallu i gael apwyntiadau, glendid y practis a safon gyffredinol y gofal a ddarperir.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“Mae X yn wych wrth y ddesg. Mae'n dangos parch ac yn barod iawn i helpu. Rwy'n teimlo'n gyfforddus iawn yn y practis hwn.”*

*“Staff gwybodus a chyfeillgar. Rwyf bob amser yn cael fy nghyfarch wrth fy enw. Mae triniaethau bob amser yn cael eu hesbonio'n glir. Rwyf bob amser yn cael fy atgoffa am fy apwyntiadau.”*

*“Mae X bob amser yn gyfeillgar ac yn barod iawn i helpu.”*

*“Mae X bob amser yn broffesiynol ac yn gyfeillgar ac yn croesawu pob claf ac yn ffarwelio â nhw mewn ffordd gynnes... Bob amser â gwên. Rwy'n teimlo rhyddhad pan fydd hi'n ateb y ffôn gan fy mod yn gwybod y bydd yn ymateb i'r materion dan sylw/cais am apwyntiad”*

*“Mae'r gwasanaeth o ansawdd uchel iawn, o'r ddesg flaen gyda'r hyfryd X sydd bob amser yn garedig, yn ofalgar iawn ac yn eich croesawu â gwên, i'r deintydd gwych, sy'n wybodus iawn ac yn llawn gofal. Mae fy nheulu a minnau yn teimlo ein bod yn cael gofal da iawn yn y practis.”*

*“Staff hyfryd.”*

*“Mae'r staff i gyd yn broffesiynol ac yn gyfeillgar.”*

#### Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

### **Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion**

Gwelsom dystiolaeth gref fod cleifion yn cael eu cefnogi i ofalu am iechyd eu ceg. Roedd amrywiaeth eang o wybodaeth hybu iechyd addas a gwybodaeth addas i gleifion ar gael yn y dderbynfa, gan gynnwys deunyddiau ar roi'r gorau i smygu, diet ac iechyd y geg, clefyd y deintgig, ac ymwybyddiaeth o sepsis. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y staff wedi esbonio iechyd eu ceg yn glir a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Roedd arwyddion 'dim smygu' yn cael eu harddangos yn glir, a oedd yn dangos bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Roedd copiau o'r daflen wybodaeth i gleifion ar gael ar-lein ac ym mhob rhan o'r practis. Gwelsom wybodaeth glir am ffioedd triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat, oriau agor, manylion y tîm o staff, a'r trefniadau ar gyfer apwyntiadau brys.

Roedd datganiad o ddiben y practis ar gael yn y practis a chadarnhaodd y staff gynlluniau i gyhoeddi'r datganiad hwn ar y wefan ochr yn ochr â'r daflen wybodaeth i gleifion, er mwyn gwella'r gallu i gael gafael ar wybodaeth.

### **Gofal urddasol a pharchus**

Roedd naw egwyddor foesegol cod safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn glir i gefnogi gofal cleifion urddasol a pharchus. Roedd enwau'r staff clinigol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u darparu y tu mewn i'r practis, ac ar-lein. Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

Roedd desg y dderbynfa a'r ardal aros ar ffurf agored, a oedd yn cyfyngu ar breifatrwydd; fodd bynnag, roedd pob aelod o'r staff wedi llofnodi cytundebau cyfrinachedd, ac roedd ardaloedd addas ar gael ar gyfer sgysiau preifat pe bai angen.

Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau ac roedd bleinds neu wydr nad oedd modd gweld drwyddo ar y ffenestri yn yr ardaloedd clinigol er mwyn hybu preifatrwydd. Gwelsom fod drysau â phaneli clir ar ddwy o'r deintyddfeydd a oedd yn golygu bod modd gweld i mewn o'r tu allan, ond roedd y trefniant hwn yn cael ei reoli mewn modd cymesur yn unol ag anghenion gweithredol ac anghenion diogelwch, gan gynnwys galluogi deintyddion i arsylwi ar y claf wrth gynnal archwiliadau pelydr-X.

### **Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf, a gadarnhaodd fod gwybodaeth adnabod a hanesion meddygol priodol yn cael eu cofnodi.

Dyweddod pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y staff wedi rhoi digon o wybodaeth iddynt ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, ynghyd â'r risgiau a'r manteision cysylltiedig. Roedd pob un ohonynt yn cytuno eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth.

## Amserol

### Gofal amserol

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i helpu cleifion i gael gofal amserol. Roedd oriau agor y practis wedi'u harddangos yn glir y tu allan i'r adeilad, yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar-lein. Roedd system dyddiadur clyfar corfforaethol yn cael ei defnyddio i reoli apwyntiadau'n effeithlon, ac roedd y staff yn cysylltu â chleifion fel mater o drefn i gadarnhau apwyntiadau a rhoi gwybod am unrhyw oedi annisgwyl. Roedd system trefnu apwyntiadau ar-lein ar gael ar gyfer apwyntiadau deintyddol ac apwyntiadau hylendid preifat.

Ar adeg ein harolygiad, dywedwyd bod cleifion fel arfer yn aros rhwng 8 a 12 wythnos am driniaeth arferol. Dywedodd y staff y byddai cleifion yr oedd eu cyflwr yn gwaethygu yn cael cynnig apwyntiad cynharach, a bod y practis hefyd yn derbyn atgyfeiriadau gan GIG 111 bob dydd er mwyn rhoi gofal brys.

Roedd slotiau apwyntiadau brys yn cael eu cadw bob dydd, ac roedd cleifion yn cael eu brysbennu yn ôl natur frys yr achos o safbwynt clinigol ac yn cael eu blaenoriaethu i gael asesiad ar yr un diwrnod lle bo angen. Roedd arwyddion allanol yn rhoi wybodaeth glir i gleifion am apwyntiadau brys a gofal y tu allan i oriau gwaith.

Dyweddwyd wrthym fod y practis wedi ymestyn ei oriau agor yn ddiweddar er mwyn cynnig apwyntiadau amser cinio, sy'n ymarfer da yn ein barn ni.

Dyweddod pawb a ymatebodd i holiadur AGIC ei bod naill ai'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

## Teg

### Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom drefniadau addas i gefnogi anghenion cyfathrebu cleifion, gan gynnwys defnyddio gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn ar gyfer cleifion nad ydynt yn siarad Saesneg, darparu awgrymiadau iaith wedi'u hargraffu, ac anfon llythyrau apwyntiad drwy'r post at gleifion heb fynediad digidol.

Roedd dewisiadau iaith cleifion wedi'u cofnodi ym mhob un o'r cofnodion a welsom. Roedd un aelod o'r staff yn siarad Cymraeg, ac roedd rhai posteri dwyieithog wedi'u harddangos. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen i'r practis wella ei 'Gynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, gan nad oedd yr aelod o staff yn gwisgo bathodyn i ddangos ei fod yn siarad yr iaith, ac nid oedd unrhyw wybodaeth am y 'Gynnig Rhagweithiol' wedi'i harddangos. Gwnaethom godi hyn yn ystod yr arolygiad a chymerodd y staff gamau ar unwaith i fynd i'r afael â'r mater hwn, drwy sicrhau bod yr aelod o staff yn gwisgo bathodyn a thrwy arddangos gwybodaeth addas.

### **Hawliau a chydraddoldeb**

Roedd trefniadau addas ar waith yn y practis i gefnogi hawliau a chydraddoldeb cleifion, wedi'u hategu gan bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth a hyfforddiant i'r staff. Dywedodd y staff eu bod yn diwallu anghenion cleifion â nodweddion gwarchoddedig gwahanol, a bod enwau a rhagenwau a ffefrir cleifion yn cael eu cofnodi er mwyn sicrhau bod cleifion trawsryweddol ac anneuaid yn cael gofal parchus.

Roedd amrywiaeth o addasiadau wedi cael eu gwneud yn ardal y dderbynfa i helpu cleifion, gan gynnwys dolen sain i gleifion ag anawsterau clywed a chwyddwydr i'r rhai ag amhariad ar eu golwg. Roedd deunyddiau print mawr yn gallu cael eu hargraffu ar gais.

Roedd cynllun yr adeilad yn golygu nad oedd y practis yn hygyrch i bobl ag anawsterau symudedd, ac roedd y cyfyngiad hwn wedi'i nodi'n glir yn y daflen wybodaeth i gleifion. Dywedodd y staff wrthym fod cleifion â phroblemau symudedd yn cael eu cyfeirio at bractis amgen pan oedd angen, a bod y darparwr yn ystyried opsiynau i symud yn y dyfodol er mwyn gwella hygyrchedd y practis. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi nad oedd breichiau ar y cadeiriau yn yr ardal aros, nad oedd yn cynnig digon o gymorth i gleifion y mae angen sefydlogrwydd ychwanegol arnynt.

**Dylai'r gwasanaeth wella'r trefniadau ar gyfer hygyrchedd drwy ystyried addasiadau ymarferol ar y safle presennol, gan gynnwys sicrhau bod seddi â breichiau ar gael er mwyn cynnig cymorth gwell i gleifion ag anghenion symudedd.**

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli risg

Roedd y practis yn lân, yn daclus, ac mewn cyflwr da ar y cyfan, ac nid oedd unrhyw annibendod. Roedd y cyfleusterau a'r cyfarpar yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol, ac roedd cyfleusterau newid addas ar gael i'r staff yn ogystal â chyfleusterau storio diogel ar gyfer eitemau personol. Fodd bynnag, roedd angen rhoi sylw i rai materion, gan gynnwys fflysh un o'r toiledau i gleifion a oedd wedi torri yn ôl pob golwg, a manau lle roedd paent yn plicio oddi ar y waliau yn yr ardaloedd i gleifion.

**Dylai'r gwasanaeth adolygu a gwella'r trefniadau cyffredinol ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau mewn cyflwr da.**

Roedd gan y practis raglen gynhwysfawr o asesiadau risg ac archwiliadau cyfredol a oedd yn ymdrin â meysydd clinigol ac amgylcheddol allweddol, wedi'u hategu gan bolisiau corfforaethol cadarn. Roedd trefniadau clir ar waith ar gyfer rheoli digwyddiadau a rhoi gwybod amdanynt, ac roedd y staff yn eu deall. Roedd y staff yn cymryd rhan mewn efelychiadau hyfforddi ac yn cael diweddariadau rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n ymwybodol o arferion gwaith diogel. Roedd y systemau cyfathrebu mewnol yn effeithiol, ac yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth yn llifo'n dda ar draws y tîm.

Roedd y trefniadau ar gyfer diogelwch tân wedi ymsefydlu'n dda ar y cyfan, gyda gweithdrefnau addas, arwyddion gweladwy ac ymarferion tân yn cael eu cynnal

bob chwe mis. Roedd y cyfarpar tân hefyd yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd. Roedd cyfarwyddiadau brys sylfaenol wedi'u harddangos i'r staff.

Gwelsom fod Tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr a phoster lechyd a Diogelwch wedi'u harddangos.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer o faterion yn ymwneud â diogelwch amgylcheddol, y cafodd pob un ohonynt eu trafod a'u datrys yn briodol gan y staff yn ystod ein hymweliad:

- Roedd bin gwastraff papur wedi'i storio yn erbyn wal allanol, a oedd yn peri risg bosibl o dân
- Problemau yn ymwneud â'r switshis ynysu pelydrau-X ym mhob un o'r tair deintyddfa, yn cynnwys dau switsh heb eu labelu ac un achos lle nad oedd gan y staff fynediad i'r allwedd yr oedd ei hangen i weithredu'r switsh wedi'i labelu. Roedd hyn yn peri risg na fyddai'r staff yn gallu ynysu'r cyfarpar radiograffig yn ddiogel ac yn gyflym pe bai nam neu argyfwng.
- Label wal anghywir ar gyfer diffoddwr CO<sub>2</sub>, a oedd yn peri risg y gallai'r staff ddewis y math anghywir o ddiffoddwr mewn argyfwng
- Hen arwyddion yn nodi lleoliad yr hen ddiffibriliwr, a oedd yn peri risg o oedi wrth ddod o hyd i gyfarpar cynnal bywyd hanfodol mewn argyfwng.

Mae manylion y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion hyn i'w gweld yn [Atodiad A](#).

### **Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau prosesau rheoli heintiau o safon uchel, wedi'u hategu gan bolisiau a gweithdrefnau priodol a threfniadau glanhau effeithiol.

Roedd arweinydd rheoli heintiau dynodedig yn y practis, a gwelsom drefniadau priodol ar gyfer rhoi brechiadau perthnasol i'r staff a rheoli anafiadau wedi'u hachosi gan offer miniog. Roedd systemau effeithiol ar waith ar gyfer glanhau, diheintio a sterileiddio offer deintyddol.

Roedd y trefniadau ar gyfer gwaredu gwastraff yn briodol ar draws yr holl ffrydiau gwastraff perthnasol, ac roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC fod y practis yn 'lân iawn'.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Gwelsom drefniadau cadarn ar gyfer rheoli meddyginiaethau, gan gynnwys systemau effeithiol ar gyfer archebu, storio, trin, rhoi a gwaredu meddyginiaethau.

Roedd meddyginiaethau brys a chyfarpar adfywio ar gael ac yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol â'r safonau cydnabyddedig. Roedd y pecynnau brys yn drefnus ac yn cael eu rheoli'n gywir.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar adfywio cardiopwlmonaidd (CPR) a bod tri aelod o'r staff yn swyddogion cymorth cyntaf hyfforddedig.

### **Diogelu plant ac oedolion**

Gwelsom drefniadau diogelu effeithiol yn y practis. Roedd polisiâu a gweithdrefnau diogelu cyfredol ar gael, ac roedd siartiau llif diogelu wedi'u harddangos yn ystafell y staff. Roedd arweinydd diogelu dynodedig yn y practis, ac roedd y staff yn hyderus wrth nodi pryderon am ddiogelu, ymateb iddynt a rhoi gwybod amdanynt.

Roedd lefelau cydymffurfiaeth uchel â hyfforddiant ar ddiogelu, ac roedd pob un o'r deintyddion a'r hylenywyr wedi'u hyfforddi hyd at Lefel 3, sy'n ymarfer da yn ein barn ni. Roedd efelychiadau diogelu hefyd yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn helpu i gynnal gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y staff.

### **Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol**

Roedd y cyfarpar clinigol yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas i'w ddefnyddio, a chadarnhaodd y staff eu bod wedi cael hyfforddiant i ddefnyddio'r cyfarpar dan sylw. Roedd offer aml dro yn cael ei drin a'i ddiheintio'n briodol, ac roedd trefniadau clir ar gyfer ymateb yn brydlon i unrhyw achosion o ddyfeisiau neu gyfarpar yn methu. Roedd pob darn o gyfarpar yn cael ei wasanaethu'n unol â'r amserlenni cynnal a chadw disgwylidig.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi bod y paent ar yr uned pelydr-X yn Neintyddfa 2 wedi cracio, a allai fod yn arwydd o ddiffyg strwythurol. Yn unol â'n hargymhelliad, cafodd hyn ei asesu'n syth ar ôl yr arolygiad gan weithiwr proffesiynol a chadarnhawyd mai problem gosmetig ydoedd, ei bod yn ddiogel parhau i ddefnyddio'r uned ac nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach.

We reviewed staff training records and saw that relevant staff had up-to-date training on the Ionising Radiation (Medical Exposure) Regulations (IR(ME)R).

## **Effeithiol**

### **Gofal effeithiol**

Roedd trefniadau diogel ac effeithiol ar waith yn y practis ar gyfer derbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y staff yn dilyn canllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol yn ôl yr angen, ac yn gallu cael cyngor proffesiynol perthnasol pan oedd ei angen, wedi'i ategu gan lwybrau grŵp corfforaethol sefydledig.

The practice made use of Local Safety Standards for Invasive Procedures (LocSSIPs) checklists to minimise the risk of wrong-site tooth extraction.

### **Cofnodion cleifion**

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n electronig ac yn unol â pholisi rheoli cofnodion priodol. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf a gwelsom eu bod yn cael eu cadw'n dda ar y cyfan a'u bod o ansawdd da. Gwelsom dystiolaeth bod gwybodaeth glinigol yn cael ei chofnodi mewn modd trylwyr, cynhwysfawr a chyson. Roedd hyn yn cynnwys hanesion meddygol, siartiau sylfaenol, radiograffau a chynlluniau triniaeth.

Fodd bynnag, wrth edrych ar y cofnodion, gwelsom arferion cofnodi anghyson rhwng y clinigwyr, ac enghreifftiau o wybodaeth goll neu anghyflawn. Gwnaethom nodi sawl achos ar wahân lle roedd gwybodaeth wedi'i hepgor yn y cofnodion, gan gynnwys un cofnod heb gyngor ar roi'r gorau i smygu a hylendid y geg, un arall heb gofnodion o archwiliadau meinweoedd meddal, archwiliadau y tu allan i'r geg a phrofion sgrinio am ganser y geg, un cofnod oedolyn heb Archwiliad Periodontol Sylfaenol, ac un cofnod heb gydsyniad wedi'i ddogfennu, opsiynau triniaeth, cyfnod adalw nac asesiad risg llawn. Gwnaethom dynnu sylw'r staff at y materion hyn ac argymhell y dylid cyflwyno templed safonol ar gyfer cadw cofnodion er mwyn helpu i sicrhau bod pob clinigydd yn cadw dogfennaeth gyflawn, gyson a thrylwyr.

**Rhaid i'r practis wneud y canlynol:**

- **Cyflwyno templed safonol ar gyfer cadw cofnodion er mwyn sicrhau bod pob clinigydd yn cofnodi gwybodaeth glinigol yn gyson ac yn drylwyr a lleihau'r risg o gofnodion coll neu anghyflawn**
- **Cynnal archwiliadau cadw cofnodion yn amlach er mwyn helpu i fonitro a gwella ansawdd yn barhaus.**

## **Effeithlon**

### **Effeithlon**

Roedd systemau da ar waith er mwyn helpu i ddarparu gofal effeithlon a chynnal safonau ansawdd. Roedd y cyfleusterau a'r safle yn briodol ar gyfer y gwasanaethau dan sylw, ac roedd y gwasanaethau wedi'u trefnu mewn ffordd a oedd yn galluogi cleifion i symud drwy lwybrau triniaeth mewn modd amserol. Roedd sesiynau

clinigol yn cael eu defnyddio'n effeithlon, ac roedd nifer y clinigwyr a'u cymysgedd sgiliau yn ddigonol i ddiwallu anghenion y gwasanaeth.

Roedd cleifion yr oedd angen gofal deintyddol brys arnynt yn cael eu rheoli'n brydlon, ac roedd y practis yn defnyddio system effeithiol i gynnig apwyntiadau a ganslwyd i gleifion eraill, a oedd yn helpu i sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o apwyntiadau ar gael.

Roedd y trefniadau atgyfeirio yn gadarn ac yn cael eu rheoli'n effeithlon iawn, gyda phrosesau monitro ac archwilio cadarn wedi'u harwain gan reolwr y practis; gwnaethom nodi bod hyn yn enghraifft o ymarfer da.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

### Adborth gan staff

Roedd yr adborth a gafwyd gan y staff a ymatebodd i holiadur AGIC a'r rhai y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn teimlo bod y cyfleusterau a'r safle yn addas ar gyfer eu gwaith, a gwnaethant gadarnhau eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn teimlo eu bod yn gallu bodloni'r galwadau a oedd yn cystadlu am eu hamser, a bod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn.

Dywedodd y staff mai gofal cleifion oedd blaenoriaeth bennaf y practis, a'u bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth roeddent yn eu rhoi i gleifion.

Dywedodd pob aelod o'r staff y byddent yn hapus i ffrind neu berthynas gael safon y gofal a ddarparwyd yn y practis hwn.

### Arweinyddiaeth

#### Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd y staff wedi llofnodi a dyddio'r polisiâu i ddangos eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Roedd strwythur rheoli a staffio clir yn y practis, wedi'i arwain gan reolwr practis effeithiol ac ymroddedig a'i ategu gan dîm corfforaethol hygyrch. Gwelsom

ymrwymiad clir i ddarparu gofal o safon uchel a dull cadarnhaol o wneud gwelliannau.

Roedd cyfarfodydd tîm misol yn cael eu cynnal, ac roedd yr agendâu a'r cofnodion yn cael eu dosbarthu er mwyn sicrhau bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac yn cael eu cynnwys.

Roedd y fframwaith cymorth corfforaethol ehangach a oedd ar waith ar gyfer y practis yn cynnwys systemau llywodraethu effeithiol a phrosesau effeithiol ar gyfer sicrhau ansawdd a rhoi gwybod am ddigwyddiadau.

## Y Gweithlu

### Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom fod trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant addas, eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn gymwys i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau yn briodol ar gyfer y gwasanaeth, gyda'r nyrsys yn gweithio'n hyblyg rhwng y deintyddfeydd a'r dderbynfa pe bai angen. Nid oedd unrhyw staff asiantaeth na staff dros dro yn cael eu defnyddio, a oedd yn cefnogi parhad gofal.

Roedd y gweithdrefnau recriwtio yn gadarn, ac yn cynnwys gwirio manylion adnabod, yr hawl i weithio, cymwysterau a geirdaon cyn cyflogi, ac roedd gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff. Roedd y prosesau sefydlu wedi'u strwythuro'n dda ac yn cynnwys rhestrau gwirio manwl a chyfnod prawf o chwe mis i nyrsys.

Roedd arfarniadau blynyddol yn cael eu cwblhau, a gwelsom systemau effeithiol i fonitro hyfforddiant gorfodol a datblygiad. Roedd cyfleoedd dysgu ar-lein ac adnoddau staff allweddol ar gael i'r staff drwy Academi Ar-lein y sefydliad ac ap Workday. Roedd y staff yn cael eu hannog i ddatblygu'n barhaus, ac roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys nyrs a oedd wedi cwblhau cwrs radiograffeg ddeintyddol a helpu nyrs dan hyfforddiant i baratoi ar gyfer arholiadau.

Roedd prosesau effeithiol ar waith i gynnal cofrestrïadau â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a gofynion proffesiynol eraill, gyda gwiriadau ffurfiol ddwywaith y flwyddyn a negeseuon atgoffa pan fyddai angen eu hadnewyddu.

## Diwylliant

### Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Dangosodd y practis ddull effeithiol o gasglu a defnyddio adborth i wella ansawdd. Gallai cleifion roi adborth drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys ar lafar, yn ysgrifenedig, drwy flwch awgrymiadau a thrwy arolygon negeseuon testun a oedd yn cael eu hanfon ar ôl apwyntiadau. Roedd y practis yn arddangos gwybodaeth “Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni” yn y dderbynfa i ddangos sut roedd adborth wedi llywio gwelliannau.

Roedd gweithdrefn gwyno glir wedi'i harddangos mewn man amlwg, ac roedd gwybodaeth am y broses Gweithio i Wella ar gael i gleifion a oedd yn cael gofal fel rhan o'r GIG. Roedd cwynion yn cael eu cofnodi ar system electronig y practis a'u monitro gan reolwr y practis, gyda chymorth gan y Tîm Cymorth Cleifion corfforaethol. Roedd canlyniadau cwynion ac adborth gan gleifion yn cael eu rhannu â'r staff yn ystod cyfarfodydd, gan eu helpu i ddysgu ac i wella'r gwasanaeth.

## **Gwybodaeth**

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol**

Roedd proses glir ar waith ar gyfer cofnodi digwyddiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion, ynghyd â threfniadau addas ar gyfer uwchgyfeirio digwyddiadau o'r fath at gyrff allanol lle bo angen.

Roedd gwybodaeth yn ymwneud â diogelwch cleifion yn cael ei rhannu â'r staff drwy gyfarfodydd a sgrymiau anffurfiol, gan sicrhau bod gwersi i'w dysgu yn cael eu rhannu'n effeithiol ar draws y tîm.

## **Dysgu, gwella ac ymchwil**

### **Gweithgareddau gwella ansawdd**

Roedd y trefniadau arwain a rheoli yn cefnogi diwylliant cadarnhaol o wella ansawdd, gyda strwythurau rheoli a chymorth corfforaethol dibynadwy.

Roedd y practis yn cadw asesiadau risg ac archwiliadau cyfredol ac roedd ganddo systemau cadarn ar gyfer cofnodi ac uwchgyfeirio digwyddiadau, gan sicrhau bod gwersi i'w dysgu yn cael eu rhannu ar draws y tîm.

Roedd gan y staff ymagwedd ragweithiol tuag at wella. Gwnaethant ddisgrifio gweithdrefnau priodol ar gyfer rheoli digwyddiadau o bwys, gan gyfeirio at enghraifft lle roedd digwyddiad a adolygwyd wedi arwain at welliannau i'r safle.

Cafodd nifer o'r materion a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad eu datrys ar unwaith, gan ddangos ymagwedd ymatebol y practis at risg a'i ymrwymiad i wella'n barhaus.

## Dull systemau cyfan

### Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Roedd gan y practis drefniadau partneriaeth priodol, ynghyd â systemau atgyfeirio sefydledig a oedd yn ei alluogi i ymgysylltu'n effeithiol â phartneriaid perthnasol pan oedd angen, gyda chymorth gan y tîm corfforaethol.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol

- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

## Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom fin gwastraff papur wedi'i storio yn erbyn wal allanol.	Roedd hyn yn peri risg bosibl o ran diogelwch tân.	Gwnaethom godi ein pryderon â'r staff.	Cafodd y bin ei symud i leoliad addas.
Gwelsom broblemau yn ymwneud â'r switshis ynysu pelydrau-X ym mhob un o'r tair deintyddfa, gan gynnwys dau switsh heb eu labelu ac un achos lle nad oedd gan y staff fynediad i'r allwedd yr oedd ei hangen i weithredu'r switsh wedi'i labelu.	Roedd hyn yn peri risg na fyddai'r staff yn gallu ynysu'r cyfarpar radiograffig yn ddiogel ac yn gyflym pe bai nam neu argyfwng.	Gwnaethom godi ein pryderon â'r staff.	Cafodd y switshis eu labelu'n gywir, a daethpwyd o hyd i allwedd addas yn ystod yr arolygiad.
Gwelsom label wal anghywir ar gyfer diffoddwr CO <sub>2</sub> .	Roedd hyn yn peri risg y gallai'r staff ddewis y math anghywir o	Gwnaethom godi ein pryderon â'r staff.	Cafodd y diffoddwr ei labelu'n gywir.

	ddiffoddwr mewn argyfwng.		
Gwelsom hen arwyddion a oedd yn nodi lleoliad yr hen ddiffibriliwr.	Roedd hyn yn peri risg o oedi wrth ddod o hyd i gyfarpar cynnal bywyd hanfodol mewn argyfwng.	Gwnaethom godi ein pryderon â'r staff.	Cafodd yr hen arwyddion eu tynnu.

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: MyDentist, Cilâ, Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 04 Mawrth 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch / unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

Dyddiad:

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: MyDentist, Cilâ, Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 04 Mawrth 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	
1.	Nid oedd breichiau ar y cadeiriau yn yr ardal aros, nad oedd yn cynnig digon o gymorth i gleifion y mae angen sefydlogrwydd ychwanegol arnynt.	Dylai'r gwasanaeth wella'r trefniadau ar gyfer hygyrchedd drwy ystyried addasiadau ymarferol ar y safle presennol, gan gynnwys sicrhau bod seddi â breichiau ar gael er mwyn cynnig cymorth gwell i gleifion ag anghenion symudedd.	Hawliau a chydreddoldeb	Mae cadeiriau â breichiau wedi'u harchebu ac rydym yn aros iddynt gyrraedd.	Kirsty Fisher	01/05/2026
2.	Roedd angen rhoi sylw i rai rhannau o'r amgylchedd, gan gynnwys fflysh un o'r toiledau i gleifion a oedd wedi torri yn ôl	Dylai'r gwasanaeth adolygu a gwella'r trefniadau cyffredinol ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau mewn cyflwr da.	Rheoli risg	Aseswyd y fflysh a chadarnhawyd ei fod yn gweithio'n iawn.  Rhoddwyd gwybod i ddesg gymorth	Kirsty Fisher	

	pob golwg, a manau lle roedd paent yn plicio oddi ar y waliau yn yr ardaloedd i gleifion.			cyfleusterau MyDentist am y paent sy'n plicio yn y dderbynfa.	01/05/2026
3.	Gwelsom arferion cofnodi anghyson rhwng y clinigwyr, ac enghreifftiau o wybodaeth goll neu anghyflawn yng nghofnodion y cleifion.	Rhaid i'r practis wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwyno templed safonol ar gyfer cadw cofnodion er mwyn sicrhau bod pob clinigydd yn cofnodi gwybodaeth glinigol yn gyson ac yn drylwyr a lleihau'r risg o gofnodion coll neu anghyflawn</li> <li>• Cynnal archwiliadau cadw cofnodion yn amlach er mwyn helpu i fonitro a gwella ansawdd yn barhaus.</li> </ul>	Gofal effeithiol	Mae templed ar gyfer cadw cofnodion clinigol wedi'i roi ar waith ar gyfer y deintyddion, fel y trafodwyd ar ddiwrnod yr arolygiad. Bydd rheolwr y practis yn parhau i fonitro hyn wrth gwblhau'r archwiliadau o gardiau cofnodi ddwywaith y flwyddyn.	Kirsty Fisher Wedi'i gwblhau ac yn barhaus

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Kirsty Fisher / Sarah-Jane Davies**

**Teitl swydd: Rheolwr y Practis / Swyddog Rheoleiddio**

**Dyddiad: 14/04/2026**